Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Clwb Carco Ysgol y Wern**

**Ysgol y Wern**
**Llangranog Road**
**Llanisien**
**Caerdydd**
**CF14 5BL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/09/2023

# Clwb Carco Ysgol y Wern

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | Clwb Carco Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 96 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Tachwedd 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn cael profiadau gwerthfawr a gwerth chweil yn y lleoliad. Maent yn gwneud dewisiadau am y gweithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt a chânt symud rhwng cyfleoedd a gaiff eu cynnig iddynt yn rhwydd. Mae ganddynt gydberthnasau cynnes â'r staff ac maent yn rhyngweithio â nhw ar bwrpas. Mae sgiliau cymdeithasol ac annibyniaeth y plant yn gyson dda ac yn briodol ar gyfer eu hoedran.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn werthfawr ac yn gadarnhaol ac mae'r staff yn cefnogi anghenion y plant yn llwyddiannus. Mae'r staff yn cynllunio ac yn cynnig amrywiaeth dda a chyson o weithgareddau gwerth chweil, a gaiff eu llywio gan ddiddordebau ac awgrymiadau'r plant.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn drefnus. Caiff gweithdrefnau rheoli heintiau eu dilyn gan y staff. Fodd bynnag, mae angen cryfhau'r prosesau hylendid bwyd yn ystod amser byrbryd. Mae'r amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn lân, yn ddiogel ac yn addas ar gyfer y plant. Mae asesiadau risg perthnasol ar waith sy'n sicrhau y caiff pob risg posibl dan do ac yn yr awyr agored ei leihau cymaint â phosibl. Mae amrywiaeth o deganau ac adnoddau o ansawdd da yn y lleoliad ar gyfer gweithgareddau awyr agored.

Mae trefniadau arwain a rheoli'r gwasanaeth yn gadarn. Mae'r tîm o staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae'r rhieni'n canmol y gofal a'r cyfleoedd y mae eu plant yn eu cael.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn cyrraedd y lleoliad o'r ysgol yn llawn brwdfrydedd ac yn ymdopi'n dda â newid staff. Maent wedi meithrin cydberthnasau cryf â'r staff, a chaiff hyn effaith glir a chadarnhaol ar lesiant y plant. Mae'r plant yn deall bod y staff yn ymateb yn gadarnhaol i'w hanghenion a'u gofynion ac maent bob amser yn ddigon hyderus i fynd atynt.  Mae'r plant yn mynd at y staff pan fydd angen cymorth arnynt wrth gyflawni gweithgareddau. Er enghraifft, gofynnodd y plant am gymorth er mwyn adeiladu cuddfan.  Mae'r plant wedi meithrin cyfeillgarwch cadarnhaol â'i gilydd. Gwelsom y plant yn cydweithio i adeiladu siglen gan ddefnyddio rhwydi cargo. Mae'r plant yn cymryd eu tro ac yn aros eu tro yn amyneddgar wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau poblogaidd. Er enghraifft, gwnaeth y plant aros eu tro i chwarae ar y sgwteri a gwnaethant gydweithio i wella eu cuddfannau.

Mae'r plant yn cyfathrebu â'r staff a gyda'i gilydd yn llwyddiannus. Dengys y plant ddiddordeb cadarn mewn gweithgareddau ac maent yn ymgysylltu'n effeithiol â'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.  Mae bron pob un o'r plant yn dangos chwilfrydedd ac yn archwilio amrywiaeth o gyfleoedd chwarae. Er enghraifft, mae'r plant yn ymgysylltu â gweithgareddau celf, saethyddiaeth, adeiladu cuddfan ac ymarfer corff, gan gynnwys beiciau. Mae'r plant yn ymwybodol y caiff eu hwyliau a'u dyheadau eu hystyried, a chânt wneud penderfyniad ynghylch y gweithgareddau amrywiol i gymryd rhan ynddynt.  Mae'r plant yn ymwybodol y caiff eu hymdrech i gyfathrebu â'r staff ei barchu gan y staff. Er enghraifft, roedd y plant yn awyddus i drafod eu hoff dimau chwaraeon a'u hoff chwaraewyr, sut y gwnaethant adeiladu eu cuddfannau a'r hyn roeddent yn ei wneud gyda chlai yn ystod y gweithgaredd celf a chrefft.  Mae'r plant yn canolbwyntio am gyfnod priodol o amser ac maent yn ymateb yn gadarnhaol pan fydd y staff yn eu hannog.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn llwyddiannus gyda chymorth staff sy'n gyson dda. Caiff y plant eu hannog i fod yn annibynnol wrth i'r staff gynllunio amrywiaeth eang o weithgareddau. Ymgynghorir â'r plant er mwyn casglu gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio'n dda, yr hyn y gellid ei wella yn y lleoliad ynghyd â syniadau ar gyfer gweithgareddau. Ymatebodd y plant y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn gadarnhaol am y lleoliad. Clywsom y plant yn chwerthin sawl gwaith drwy gydol yr arolygiad sy'n dangos eu bod yn hapus.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn llwyddiannus er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn cael hyfforddiant ar ddiogelu yn rheolaidd ac yn deall gweithdrefnau diogelu'r lleoliad. Mae'r staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau ac maent yn sicrhau y caiff y cofnodion hynny eu llofnodi gan y rhieni. Fodd bynnag, ni chaiff damweiniau a digwyddiadau eu gwerthuso'n ffurfiol. Mae nifer addas o'rstaff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, sy'n eu galluogi i ddelio â damweiniau yn briodol. Mae oddeutu hanner y staff yn meddu ar gymwysterau diogelwch bwyd cyfredol ac mae'r rhai hynny sy'n gymwys yn paratoi ffrwythau fel byrbryd iach i'r plant a gaiff eu hannog i weini eu hunain. Fodd bynnag, nid yw'r staff yn gwisgo menig na ffedogau untro wrth baratoi byrbryd. Gwelsom hefyd nad oedd y plant yn golchi eu dwylo cyn gweini a bwyta eu byrbryd. Mae dŵr yfed ffres ar gael i'r plant ac mae'r staff yn goruchwylio'r plant wrth iddynt lenwi eu poteli dŵr yn annibynnol, os oes angen.

Mae gan y staff gydberthnasau cadarn a chadarnhaol â'r plant. Maent yn garedig, yn ofalgar ac yn amyneddgar ac mae pob achos o ryngweithio yn werth chweil ac yn gadarnhaol. Mae'r staff yn cefnogi ymddygiad cymdeithasol y plant yn fedrus. Eisteddodd y staff gyda'r plant a rhyngweithio â nhw yn ystod gweithgareddau i drafod syniadau a ffyrdd o wella eu sgiliau. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys y staff yn awgrymu sut i wella sgiliau saethyddiaeth a sut i greu siglenni gan ddefnyddio rhwydi cargo. Mae'r staff yn gweithredu strategaethau cadarn yn unol â'u polisi rheoli ymddygiad ac maent yn canmol ac yn annog y plant. Gall y plant ddefnyddio ardaloedd priodol lle y caiff cyfleoedd gwerth chweil eu cynnig i hybu eu llesiant corfforol, cymdeithasol a chreadigol. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys ardal chwarae fawr, cae mawr ac ardal gemau aml-ddefnyddiwr. Mae'r staff yn ymgysylltu'n llawn â phob gweithgaredd yn eu hardal ac yn annog y plant i gymryd rhan lawn ym mhob cyfle a gânt.

Yn ôl trafodaethau a gawsom â'r staff, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ddiwallu anghenion y plant sydd angen cymorth ychwanegol. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd unrhyw un o'r plant angen cymorth ychwanegol.  Mae'r staff yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg drwy'r lleoliad. Mae pob aelod o'r staff yn siarad Cymraeg yn rhugl ac mae'r plant yn siarad Cymraeg yn naturiol. Mae'r lleoliad yn dathlu gwyliau megis y Nadolig a Dydd Gŵyl Dewi.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn ddiogel. Gall ymwelwyr ddod i mewn i'r lleoliad wedi iddynt gael caniatâd gan staff yr ysgol a hynny drwy'r brif fynedfa sy'n ddiogel. Mae gofyn i'r ymwelwyr lofnodi wrth gyrraedd y lleoliad ac mae arweinydd y clwb yn mynd i'w cyfarfod.  Mae'r ardal awyr agored wedi'i hamgylchynu gan ffens a chaiff unrhyw giatiau eu cloi cyn i'r plant ddefnyddio'r ardal awyr agored. Mae asesiadau risg ar waith, gan gynnwys asesiad risg ar gyfer yr ardal awyr agored a chaiff gwiriadau diogelwch dyddiol eu cynnal ar yr adnoddau er mwyn tynnu sylw at unrhyw risgiau cymaint â phosibl. Dywedodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad y caiff pob gwiriad diogelwch gofynnol arall ei gwblhau gan yr ysgol o fewn amserlenni priodol. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys gwiriadau larymau tân a mwg, diffoddwyr tân a phrofion trydan. Mae'r safle yn lân ac mae bob ardal yn ddiogel. Mae'r cyfleusterau toiled yn briodol ar gyfer oedran y plant, ac mae pob aelod o'r staff yn dilyn canllawiau i hyrwyddo eu preifatrwydd a'u hurddas.

Mae'r safle dan do yn gynnes ac yn groesawgar ac mae'n sicrhau amgylchedd cadarnhaol a gwerthfawr i'r plant chwarae a dysgu. Mae'r ardal hon yn cynnig cyfleoedd i gefnogi datblygiad corfforol y plant, eu chwilfrydedd yn ogystal â'u dysgu yn gyffredinol. Mae dwy neuadd fawr ac ystafell goginio briodol yn rhan o'r ardaloedd y gall y plant eu defnyddio. Mae'r rhain yn ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i'r plant i fodloni eu diddordebau a'u datblygiad. Mae'r ystafelloedd sydd ar gael i'r plant yn fawr ar y cyfan ac yn sicrhau bod gweithgareddau ar gael i bob un ohonynt yn rhwydd. Caiff yr adnoddau awyr agored eu storio'n briodol mewn cynhwysydd awyr agored diogel. Mae'r staff yn rhoi trefn ar yr amgylchedd awyr agored cyn i'r plant gyrraedd, gan sicrhau bod yr adnoddau ar gael yn hawdd i'r plant fel y gallant eu defnyddio ar unwaith. Gall y plant ofyn am adnoddau nad ydynt wedi'u gosod i'r plant yn hyderus, ac mae'r staff yn ymateb yn briodol.

Mae'r staff yn darparu amrywiaeth eang o deganau ac adnoddau sy'n briodol i oedran y plant sy'n cynnal eu diddordeb. Er enghraifft, gwelsom y plant yn cael gafael ar adnoddau adeiladu cuddfan, adnoddau celf a chrefft, saethyddiaeth a gemau pêl. Mae'r plant hefyd yn defnyddio cyfarpar yn yr awyr agored, megis fframiau dringo, byrddau picnic a'r ardaloedd gwyrdd. Mae'r dodrefn a'r cyfarpar o faint priodol ac maent o ansawdd da. Mae pob un o'r teganau a'r cyfarpar chwarae yn lân ac mewn cyflwr da. Fodd bynnag, nid oedd adnoddau amlwg ar gael i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol, dathliadau ac amrywiaeth yn y lleoliad.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Da

Mae trefniadau arwain a rheoli'r lleoliad yn dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn fedrus ac yn brofiadol. Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, a disgwyliadau cadarn o ran y staff; maent yn eu cefnogi'n barhaus i wneud eu gorau. Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi gwybodaeth fanwl i'r rhieni am y ffordd y caiff y lleoliad ei redeg. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau'n rheolaidd ac yn sicrhau bod y staff yn eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r polisi cwynion yn cynnwys gwybodaeth am sut y gall y plant hŷn rannu eu pryderon neu wneud cwyn. Mae ganddynt systemau cadw cofnodion ar waith, gan gynnwys contractau'r plant, asesiadau risg a ffeiliau staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am ddigwyddiadau fel y nodir yn y rheoliadau, gan ddarparu gwybodaeth berthnasol ar yr adegau cywir. Mae hyn yn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol, bod llesiant y plant yn cael ei hyrwyddo ac y cânt eu diogelu.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau gwerth chweil ar waith i werthuso'r gwasanaeth. Maent yn hunanwerthuso'r lleoliad ac yn ceisio adborth gan y rhieni, y staff, y plant a'r gweithwyr proffesiynol allanol yn gyson. Caiff pob darn o wybodaeth ei defnyddio'n bwrpasol fel rhan o'r adroddiad ar ansawdd y gofal. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella ac i gynyddu cyfleoedd i'r plant. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys prynu gril gan fod y plant yn mwynhau coginio crempogau, llyfrau lliwio, ffigurau antur, jig-sos, gemau bwrdd a sgwteri. Roedd yr eitemau hyn ar gael yn amgylchedd chwarae'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn gwerthfawrogi eu staff. Maent yn sicrhau bod staff cymwys a phrofiadol yn bresennol i sicrhau bod y plant yn cael gofal da bob amser. Mae ethos cadarnhaol o weithio mewn tîm o fewn y tîm o staff, ac maent yn cydweithio'n agos i sicrhau y caiff y plant y profiadau gorau posibl. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys defnyddio ap cyfryngau cymdeithasol i rannu syniadau ar gyfer gweithgareddau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn defnyddio prosesau recriwtio effeithiol er mwyn sicrhau bod y staff yn gwbl addas i weithio gyda phlant. Maent yn cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarnu rheolaidd i gefnogi'r staff i ddatblygu'n broffesiynol ac i fodloni gofynion hyfforddiant. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli ac y gallant siarad am unrhyw bryderon â nhw a'u trafod yn hyderus. Caiff cyfarfodydd staff eu cynnal yn rheolaidd er mwyn rhannu gwybodaeth berthnasol, trafod unrhyw faterion sy'n codi ac i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau diogelu.

Mae'r partneriaethau â'r rhieni ac asiantaethau allanol yn gadarn. Mae'r staff yn rhannu diweddariadau dyddiol â'r rhieni yn rheolaidd drwy gynnal trafodaethau â nhw pan fyddant yn casglu eu plant o'r lleoliad. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal y mae eu plant yn ei gael. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi datblygu cysylltiadau cadarn â

gweithwyr proffesiynol allweddol yn yr ysgol yn ogystal â sefydliadau allanol er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r wybodaeth a'r datblygiadau diweddaraf.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 12 - Bwyd a diod | Sicrhau y caiff gweithdrefnau hylendid eu dilyn wrth baratoi a gweini byrbrydau |
| Safon 16 - Cyfle cyfartal | Sicrhau bod ystod o adnoddau a gweithgareddau amrywiaeth ar gael i ehangu gwybodaeth y plant o ddiwylliannau gwahanol |
| Safon 19 - Cwynion | Datblygu prosesau er mwyn i'r plant hŷn rannu eu pryderon |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau y caiff ffurflenni damweiniau a digwyddiadau eu gwerthuso er mwyn nodi unrhyw dueddiadau a risgiau posibl. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/11/2023